# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 10.10.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Keith Carroll, Geraint Edwards, Geraint Micah, Malcolm Hills, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Rhoddwyd croeso hefyd i aelodau o'r grŵp "Llwyngwril Environmental Group" (LEG) i'r cyfarfod, a derbyniwyd adroddiad gan Mr Mike Senior ynglyn â'r chwyn "Japanese Knotweed" yn Llwyngwril.**

Nodwyd fod y grŵp yn falch fod yr aelodau wedi dweud eu bod yn hapus i gefnogi'r prosiect ond ddim yn hapus o gwbl i glywed nad oedd y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i allu helpu yn ariannol.
*(Y rheswm am hyn oedd mai cyfrifoldeb y tirfeddianwyr yw'r Japanese Knotweed sy'n tyfu ar dir preifat).*
Esboniodd Mr Mike Senior fod y grŵp yn teimlo'n gryf iawn fod rhaid trin y Japanese Knotweed yn y pentref, ac os nag oes camau cadarn yn cael eu cymryd yn y dyfodol agos i drio difa'r chwyn yma, bydd y broblem yn gwaethygu.
Nodwyd fod y cynnig yn dal ar agor, os oedd yr aelodau am ailystyried eu penderfyniad i'r Cyngor Cymuned gyfrannu yn ariannol, i helpu'r grŵp i wneud pob ymdrech i gael gwared â'r JK yn y pentref.

**Penderfyniad** ➞ Cyngor Cymuned i ffurfio Is-bwyllgo ag aelodau'r Is-bwyllgor ag aelodau'r LEG weithio ynghyd
**Cynnig** – Malcolm Hills **Eilio** – John Griffiths
Ian Williams, John Griffiths, a Malcolm Hills yn rhoi eu henwau ymlaen fel aelodau o'r Is-bwyllgor.

➞ ailystyried eu penderfyniad gwreiddiol ➞ pawb yn gytûn i gynnig cyfraniad ariannol **= £50.00**
**Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Geraint Micah.

➞ cael copi o gyfansoddiad "Llwyngwril Environmental Group", (a chopi o'i cyfrifon pan ar gael).

➞ trefnu cyfarfod i aelodau'r Is-bwyllgor y Cyngor Cymuned hefo aelodau pwyllgor LEG.

Diolchodd y Cadeirydd aelodau'r grŵp LEG am fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned.

2. **Ymddiheuriadau:** Kevin Goodchild, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **12.09.18** fel rhai cywir.
**Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Dylan Thomas **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.09.18):**
   a) **Tŷ Nant, Llwyngwril -** atebion wedi eu derbyn gan Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol Eryri yn cadarnhau eu bod yn dal mewn trafodaeth gyda pherchennog Tŷ Nant, ynglŷn â'r fynedfa arfaethedig a materion eraill yn ymwneud â'r gwaith, gan gynnwys materion perchnogaeth tir, ag adeiladu wal gerrig newydd wrth ymyl y fynedfa arfaethedig.
   ➞ Aros am adroddiadau pellach gan Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol Eryri.
   b) **Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned** – Huw Davies a Geraint Edwards wedi cynnig mesur y ffenestr bersbecs eto!
   c) **Gatiau Croesfan y Perthi** - adroddiad wedi ei dderbyn gan Reolwr Croesfannau Network Rail yn cadarnhau ei fod wedi ymweld â'r safle a'i fod yn mynd i geisio cael gatiau newydd yna.
   d) **Network Rail - Arwyddion newydd ger croesfan y Crynwyr -** ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r arwyddion newydd ger y groesfan reilffordd, a'u bod angen ystyried yr holl dystiolaeth - defnydd hir a thystiolaeth ddogfennol, cyn dod i benderfyniad beth fydd y cam nesaf.
   e) **Camfeydd ar y Llwybrau Cyhoeddus** – ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd Swyddog Hawliau Tramwy yn archwilio'r llwybrau ger Pant Gwyn a Parth y Gwyddwch, Llwyngwril yn y dyfodol agos.

5. **Gohebiaeth:**
   - **a) Marie Curie –** llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned = £50.00
   - **b) Prosiect Ieuenctid** – gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd.
   - **c) Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian -** gwybodaeth ynglŷn â'r cyfarfod nesaf ar y 30.11.18.
   - **d) Un Llais Cymru –** Agenda 26.09.18 a chofnodion o'r cyfarfod 23.05.18<br>Amserlen hyfforddiant Gogledd Cymru – Medi 2018 – Mawrth 2019<br>Canfyddiadau ac argymhellion amlinellol y panel adolygu annibynnol ar cynghorau cymuned.
   - **e) Parc Cenedlaethol Eryri** – Cynllun Datblygu Lleol Eryri – gwybodaeth ar yr ymgynghoriad
   - **f) Cyngor Gwynedd -** "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" ➞ holiadur i'w gwblhau a'i ddychwelyd erbyn 02.11.18.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **a) NP5/69/354B - Maes y Crynwyr, Llwyngwril -** Cais rhannol ôl-weithredol i gadw dwy ffenestr to ac ail-leoli'r ffliw diawdurdod presennol -<br>**Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Medi 2018 yn gywir.

**Cynnig –** John Griffiths **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Ian Williams.

- £25.00 – cyfraniad ariannol i'r Poppy Appeal am y "wreath" ➞ anfon siec i Mr Morkill, Gwyddelfynydd, Bryncrug.
- £50.00 – cyfraniad ariannol i'r grŵp "Llwyngwril Environmentatl Group"

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
   - Parc Cenedlaethol Eryri - cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned a thref –<br>Derbyniwyd adroddiad gan Ian Williams o'r cyfarfod a fynychodd yn Neuadd Dyfi - 02.10.18.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
    - **b) Coeden Nadolig i Roslefain -** Geraint Micah wedi cynnig gofyn i Kevin Jones rhoi pris, am goeden 5m.
    - **c) Coeden Nadolig i Lwyngwril -** gofyn i Emlyn Roberts os oes ganddo goeden i Lwyngwril eto eleni?
    - **d) Archebu "wreath"** - ar gyfer Dydd y Cofio - 11.11.18 – Keith Carroll wedi cynnig mynd i wasanaeth Eglwys Celynnin a gosod y "wreath". Pawb yn gytûn i'r Cyngor Cymuned gyfrannu £25.00 tuag at y "Poppy Appeal".
    - **e) Er gwybodaeth** – siop newydd i agor ger Y Pandy yn y dyfodol agos.

    **Materion Cymunedol – Gyngor Gwynedd**

    - **Ffordd Carn-y-gadell }**
    - **Ffordd Cefnmeusydd/Tudfarch } -** ffyrdd wedi eu marcio eisoes ond y gwaith heb eu wneud
    - **Ffyrdd yn y pentref , Llwyngwril }**
    - **Cwteri yn pentref – Llwyngwril –** angen cael ei gwagu/glanhau
    - **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn pryd fydd y gwaith cynnal a chadw yn debygol o gael ei wneud?

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 14.11.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**